



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 973 (Cy.132)

2003 No. 973 (W.132)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**LANDLORD AND TENANT,
WALES**

Gorchymyn Gweinyddu
Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti
(Cymru) 2003

The Administration of the Rent
Officer Service (Wales) Order 2003

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu, yn unol â'r pwerau sy'n arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") o dan adran 64B o Ddeddf Rhenti 1977, bod penodi, talu, a gweinyddu swyddogion rhenti yng Nghymru yn swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach na swyddogaethau awdurdodau lleol.

This Order provides, in accordance with powers exercisable by the National Assembly for Wales ("the National Assembly") under section 64B of the Rent Act 1977, that the appointment, remuneration and administration of rent officers in Wales are to be functions of the National Assembly for Wales rather than of local authorities.

Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn yn diddymu, ar 1 Mehefin 2003 ("y dyddiad trosglwyddo"), gynlluniau ar gyfer ardaloedd cofrestru rhenti yng Nghymru wedi'u gwneud o dan adran 63 o Ddeddf Rhenti 1977.

Article 2 of the Order abolishes, on 1st June 2003 ("the transfer date"), schemes for rent registration areas in Wales made under section 63 of the Rent Act 1977.

Mae Erthyglau 3 a 4 yn darparu ar gyfer trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol gontractau cyflogaeth swyddogion rhenti a staff gweinyddol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth y swyddogion rhenti (y cyfeirir atynt fel "y cyflogeion perthnasol") yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Articles 3 and 4 make provision for the transfer of the contracts of employment of rent officers' and the administrative staff employed in the rent officer service (collectively referred to as "the relevant employees") immediately before the coming into force of this Order to the National Assembly.

Mae Erthygl 5 yn trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol yr eiddo (heb gynnwys buddiannau mewn tir neu adeiladau) a ddelir a'r iawnderau a'r rhwymedigaethau yr oedd gan y cyrff perthnasol hawl iddynt neu yr oeddent yn ddarostyngedig iddynt, mewn cysylltiad â gwasanaeth y swyddogion rhenti.

Article 5 transfers the property (not including interests in land or buildings) held and the rights and liabilities to which the relevant bodies were entitled or subject, in connection with the rent officer service, to the National Assembly.

Mae Erthygl 6 yn darparu bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i benodi, talu cyflogau a phensynau, lwfansau ac arian rhodd i swyddogion rhenti neu mewn perthynas â hwy.

Article 6 provides that the National Assembly has the power to appoint, remunerate and pay pensions, allowances and gratuities to or in respect of rent officers.

Mae Erthygl 7 yn gwneud darpariaeth o ran gweinyddu a goruchwyllo swyddogion rhenti.

Mae Erthygl 8 yn darparu y bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 yn gymwys i drosglwyddo contractau cyflogaeth y cyflogeion perthnasol o'r cyrff perthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Erthygl 9 yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu am wariant penodol y mae'r cyrff perthnasol yn mynd iddo o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn.

Mae Erthyglau 10, 11 a 12 yn diwygio Deddf Rhenti 1977.

Mae Erthygl 13 yn gwneud darpariaethau atodol a chysylltiedig ac yn diddymu paragraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Llwyodraeth Leol (Cymru) 1994.

Article 7 makes provision with respect to the administration and supervision of rent officers.

Article 8 provides that the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981 will apply to the transfer of the contracts of employment of the relevant employees from the relevant bodies to the National Assembly.

Article 9 makes provision for specified expenditure, incurred by the relevant bodies as a consequence of this Order, to be met by the National Assembly.

Articles 10, 11 and 12 make amendments to the Rent Act 1977.

Article 13 makes incidental and supplementary provisions and repeals paragraph 3(2) of Schedule 8 to the Local Government (Wales) Act 1994.

2003 Rhif 973 (Cy.132)

2003 No. 973 (W.132)

LANDLORD A THENANT,
CYMRULANDLORD AND TENANT,
WALESGorchymyn Gweinyddu
Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti
(Cymru) 2003The Administration of the Rent
Officer Service (Wales) Order 2003*Wedi'i wneud**1 Ebrill 2003**Made**1st April 2003**Yn dod i rym**1 Mehefin 2003**Coming into force**1st June 2003*

O ran ardaloedd cofrestru yng Nghymru, gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r farn nad yw bellach yn briodol bod penodi, talu a gweinyddu swyddogion rhenti yn un o swyddogaethau awdurdodau lleol(a);

Whereas, with respect to registration areas in Wales, it appears to the National Assembly for Wales that it is no longer appropriate for the appointment, remuneration and administration of rent officers to be a function of local authorities(a);

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 64B o Ddeddf Rhenti 1977(b) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol-

now the National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by section 64B of the Rent Act 1977(b) hereby makes the following Order-

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinyddu Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Mehefin 2003 .

Title, commencement and application

1.-(1) This Order is called the Administration of the Rent Officer Service (Wales) Order 2003 and comes into force on 1st June 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) This Order applies to Wales only.

(3) Yn y Gorchymyn hwn -

(3) In this Order -

ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw'r corff a oedd yn cyflogi'r cyflogai perthnasol yn union cyn y dyddiad trosglwyddo;

"the 1981 Regulations" ("*Rheoliadau 1981*") means the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981(c),

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant*

(a) *Gweler* adran 64B(1) o Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42); mewnosodwyd adran 64B gan adran 120 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) a Rhan II o Atodlen 14 iddi.

(b) Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru arfer y pŵer o dan yr adran hon mewn perthynas â Chymru: *gweler* erthygl 2 o ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) *See* section 64B(1) of the Rent Act 1977 (c. 42); section 64B was inserted by section 120 of, and Part II of Schedule 14 to, the Housing Act 1988 (c. 50).

(b) The National Assembly for Wales can exercise the power under this section in relation to Wales: *see* article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1981/1794 as amended by regulation 2 of the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) (Amendment) Regulations 1987 (S.I. 1987/442), section 7(2) of the Dock Work Act 1989 (c.13), sections 33 and 51 of and Schedule 10 to the Trade Union Reform and Employment Rights Act 1993 (c.19), regulations 8, 9 and 11 of the Collective Redundancies and Transfer of Undertakings (Protection of Employment) (Amendment) Regulations 1995 (S.I. 1995/2587), section 1 of the Employment Rights (Dispute Resolution) Act 1998 (c.8), regulations 2, 8, 9 and 10 of the Collective Redundancies and transfer of Undertakings (Protection of Employment) (Amendment) Regulations 1999 (S.I. 1999/1925), and regulations 2 and 3 of the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) (Amendment) Regulations 1999 (S.I. 1999/2402).

employee") yw person y mae ei contract cyflogaeth i'w drosglwyddo gan Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rhenti 1977(a);

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Mehefin 2003; ac

ystyr "Rheoliadau 1981" ("*the 1981 Regulations*") yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(b).

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Rent Act 1977(a);

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"relevant body" ("*corff perthnasol*") means the body who immediately before the transfer date employed the relevant employee;

"relevant employee" ("*cyflogai perthnasol*") means a person whose contract of employment is to be transferred by Article 3 of this Order; and

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1st June 2003.

Diddymu cynlluniau o dan adran 63 o Ddeddf Rhenti 1977 yng Nghymru

2.-(1) Bydd unrhyw gynllun wedi'i wneud o dan adran 63 o'r Ddeddf, mewn perthynas â Chymru, a oedd yn bod yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn peidio â bod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

(2) Rhaid peidio â gwneud cynllun o dan adran 63 o'r Ddeddf ar gyfer unrhyw ardal gofrestru yng Nghymru.

Trosglwyddo Staff

3. Bydd contract cyflogaeth rhwng y corff perthnasol ac

- (a) pob swyddog rhenti; a
- (b) pob aelod o staff gweinyddol yn y corff perthnasol a gyflogir yn narpariaeth gwasanaeth y swyddogion rhenti,

a gyflogid yn barhaus gan y corff perthnasol yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, ac eithrio unrhyw staff a wrthwynebodd drosglwyddo eu contractau cyflogaeth yn unol â Rheoliad 5(4A) o Reoliadau 1981, yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo fel petai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai perthnasol a'r Cynulliad Cenedlaethol.

4. Heb ragfarn i erthygl 3:

- (a) yn ddarostyngedig i baragraffau (ch) i (e) isod, trosglwyddir i'r Cynulliad Cenedlaethol bob hawl, pŵer, dyletswydd a rhwymedigaeth y

(a) 1977 p. 42.

(b) O.S. 1981/1794 fel y'i diwygiwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1987 (O.S. 1987/442), adran 7(2) o Ddeddf Gwaith Dociau 1989 (p.13), adrannau 33 a 51 o Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p.19) ac Atodlen 10 iddi, rheoliadau 8, 9 ac 11 o Reoliadau Diswyddiadau Torfol a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1995 (O.S. 1995/2587), adran 1 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p.8), rheoliadau 2, 8, 9 a 10 o Reoliadau Diswyddiadau Torfol a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/1925), a rheoliadau 2 a 3 o Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2402).

Abolition of schemes under section 63 of the Rent Act 1977 in Wales

2.-(1) Any scheme made under section 63 of the Act, in relation to Wales, which was in existence immediately before the transfer date, will cease to have effect from the transfer date.

(2) No scheme under section 63 of the Act is to be made for any registration area in Wales.

Transfer of Staff

3. The contract of employment between the relevant body and

- (a) all rent officers; and
- (b) all administrative staff of the relevant body employed in the provision of the rent officer service,

who were continuously employed by the relevant body immediately prior to the transfer date, save for any such staff who objected to the transfer of their contracts of employment pursuant to Regulation 5(4A) of the 1981 Regulations will have effect from the transfer date as if originally made between the relevant employee and the National Assembly.

4. Without prejudice to article 3:

- (a) subject to paragraphs (d) to (g) below, all rights, powers, duties and liabilities of the relevant body under, or in connection with, a

(a) 1977 c. 42.

- corff perthnasol o dan contract cyflogaeth y mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, neu mewn cysylltiad ag ef, yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, o'r dyddiad trosglwyddo;
- (b) yn ddarostyngedig i baragraffau (ch) i (e) isod, caniateir i unrhyw beth a wneid cyn y dyddiad trosglwyddo, gan, i neu mewn perthynas â chyflogai perthnasol ynglŷn â chontract cyflogaeth barhau i gael ei wneud, ar ôl y dyddiad hwnnw gan, i neu mewn perthynas â'r person hwnnw;
- (c) yn ddarostyngedig i baragraffau (ch) i (e) isod, bernir bod unrhyw beth a wneid cyn y dyddiad trosglwyddo gan, i neu mewn perthynas â chorff perthnasol ynglŷn â chontract cyflogaeth neu gyflogai perthnasol, wedi'i wneud gan, i neu mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol o'r dyddiad trosglwyddo;
- (ch) yn ddarostyngedig i baragraff (d), pan wnaed penodiad cyflogai perthnasol yn ddarostyngedig i hawliau, rhwymedigaethau, pwerau a dyletswyddau, mae unrhyw un o'r hawliau, y rhwymedigaethau, y pwerau a'r dyletswyddau hynny a fodolai yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn parhau i fodoli;
- (d) yn ddarostyngedig i baragraff (dd), trosglwyddir pob un o hawliau, rhwymedigaethau, pwerau a dyletswyddau y sywddog priodol neu'r corff perthnasol y bu penodiad cyflogai perthnasol yn ddarostyngedig iddo, yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau angenrheidiol er mwyn galluogi eu cymhwyso mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol yn lle'r swyddog priodol, neu yn ôl fel y digwydd, y corff perthnasol;
- (dd) nid yw paragraff (d) yn trosglwyddo nac yn effeithio fel arall -
- (i) ar rwymedigaethau unrhyw berson sydd i'w erlyn am unrhyw dramgwydd, sydd i'w gollfarnu ohono a'i ddedfrydu o'i herwydd neu
- (ii) ar rwymedigaethau unrhyw berson i dalu iawndal i gyflogai perthnasol neu mewn perthynas ag ef a'r rheini'n rhwymedigaethau sy'n codi o unrhyw beth a wnaed, neu fethiant â'i wneud, cyn y dyddiad trosglwyddo, ac
- (e) nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n effeithio ar unrhyw hawl sydd gan gyflogai perthnasol i derfynu ei benodiad ond nid yw'r hawl honno yn codi oherwydd y trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol y mae'r Gorchymyn hwn yn ei beri.
- contract of employment to which Article 3 of this Order applies, are, by virtue of this Order, transferred from the transfer date to the National Assembly;
- (b) subject to paragraphs (d) to (g) below, anything which before the transfer date was being done by, to or in relation to a relevant employee in respect of a contract of employment, may be continued after that date by, to or in relation to that person;
- (c) subject to paragraphs (d) to (g) below, anything which before the transfer date was being done by, to or in relation to, a relevant body in respect of such a contract of employment or a relevant employee, is to be deemed from the transfer date to have been done by, to or in relation to, the National Assembly;
- (d) subject to paragraph (e), where the appointment of a relevant employee was made subject to rights, liabilities, powers or duties, any of those rights, liabilities, powers and duties which existed immediately before the transfer date continue to exist;
- (e) subject to paragraph (f), all of the proper officer's or relevant body's rights, liabilities, powers and duties, to which the appointment of a relevant employee was subject, are, by virtue of this Order, transferred to the National Assembly subject to any modifications necessary to enable them to apply in relation to the National Assembly instead of the proper officer or, as the case may be, the relevant body;
- (f) paragraph (e) does not transfer or otherwise affect -
- (i) the liabilities of any person to be prosecuted for, convicted of and sentenced for any offence; or
- (ii) the liabilities of any person to pay compensation to or in respect of a relevant employee arising from anything done or a failure to do anything before the transfer date, and
- (g) nothing in this Order affects any right of a relevant employee to terminate his or her appointment but no such right arises by reason only of the transfer to the National Assembly effected by this Order.

Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau

5.-(1) Trosglwyddir yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd y cyrff perthnasol â hawl iddynt neu yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â gwasanaeth y swyddogion rhenti i'r Cynulliad Cenedlaethol o'r dyddiad trosglwyddo.

(2) At ddibenion erthygl 5(1), nid yw'r term eiddo yn cynnwys tir neu adeiladau neu unrhyw fuddiant mewn tir neu adeiladau.

Penodiadau, taliadau, pensiynau, lwfansau ac arian rhodd swyddogion rhenti

6. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol -

- (a) penodi a thalu swyddogion rhenti;
- (b) penderfynu ar dâl swyddogion rhenti gan ystyried unrhyw sylwadau oddi wrth bersonau y mae'n eu derbyn yn gynrychiolwyr swyddogion rhenti; ac
- (c) talu, neu pan fydd yn briodol, sicrhau bod y pensiynau, y lwfansau a'r arian rhodd yn cael eu talu i swyddogion rhenti neu mewn perthynas â hwy yn unol â'u statws fel gweision sifil a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn unol ag adran 1 o Ddeddf Blwydd-dal 1972(a) neu gynllun wedi'i wneud o dan yr adran honno.

Gweinyddu swyddogion rhenti

7.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) darparu ystafelloedd ac offer swyddfa a chymorth clerigol a chymorth arall ar gyfer swyddogion rhenti;
- (b) dyrannu gwaith rhwng swyddogion rhenti; ac
- (c) goruchwylio ymddygiad swyddogion rhenti.

(2) Rhaid i swyddogion rhenti gyflawni'r dyletswyddau swyddogion rhenti y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfarwyddo i'w cyflawni.

Cymhwyso rheoliadau 1981

8.-(1) Rhaid trin y cyflogeion perthnasol yn yr un modd â chyflogeion at ddibenion Rheoliadau 1981 o dan amgylchiadau pan fydd Rheoliadau 1981 yn gymwys.

(2) Rhaid trin pob corff perthnasol a'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr un modd â throsglwyddwr a throsglwyddai yn eu tro at ddibenion Rheoliadau 1981 o dan amgylchiadau pan fydd Rheoliadau 1981 yn gymwys.

Gwariant

9.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu drwy

(a) 1972 p.11.

Transfer of Property, Rights and Liabilities

5.-(1) All property, rights and liabilities to which the relevant bodies were entitled or subject immediately before the transfer date in connection with the rent officer service are transferred to the National Assembly from the transfer date.

(2) For the purposes of article 5(1), the term property does not include land or buildings or any interest in land or buildings.

Appointment, remuneration, pensions, allowances and gratuities of rent officers

6. The National Assembly must -

- (a) appoint and remunerate rent officers;
- (b) determine the amounts of rent officers' remuneration having regard to any representations from such persons as it accepts as being a representative of rent officers; and
- (c) pay, or as appropriate secure the payment of, such pensions, allowances and gratuities to or in respect of rent officers in accordance with their status as civil servants appointed by the National Assembly and in accordance with section 1 of the Superannuation Act 1972(a) or a scheme made under that section.

Administration of rent officers

7.-(1) The National Assembly must -

- (a) provide office accommodation and clerical and other assistance for rent officers;
- (b) allocate work as between rent officers; and
- (c) supervise the conduct of rent officers.

(2) Rent officers are to discharge such rent officer duties as the National Assembly may direct.

Application of the 1981 regulations

8.-(1) The relevant employees are to be treated in the same way as employees for the purposes of the 1981 Regulations in circumstances where the 1981 Regulations apply.

(2) Each relevant body and the National Assembly are to be treated in the same way as a transferor and the transferee respectively for the purposes of the 1981 Regulations in circumstances where the 1981 Regulations apply.

Expenditure

9.-(1) Any expenditure incurred by the relevant

(a) 1972 c.11.

grant, ad-daliad neu fel arall am unrhyw wariant y mae'r cyrff perthnasol yn mynd iddo, sef gwariant sydd o fath a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Mae gwariant a grybwyllir ym mharagraff (1) yn unrhyw wariant rhesymol y gellir ei briodoli i'r Gorchymyn hwn, ac -

- (a) yr eir iddo mewn perthynas â phensiynau, lwfansau neu arian rhodd sy'n daladwy i swyddogion rhenti neu mewn perthynas â hwy yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 neu reoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 7 neu 24 o'r Ddeddf honno, neu
- (b) yr eir iddo mewn perthynas â chodiadau mewn pensiynau sy'n daladwy i swyddogion rhenti (a benodir felly) neu mewn perthynas â hwy yn rhinwedd Deddf (Codi) Blwydd-dal 1971(a), neu
- (c) yr eir iddo mewn perthynas ag unrhyw dir neu adeiladau neu unrhyw fuddiant mewn unrhyw dir neu adeiladau a ddefnyddid yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, at ddibenion gwasanaeth y swyddogion rhenti pan nad yw'r corff perthnasol wedi gallu dod o hyd i ddefnydd arall i'r eiddo neu ei waredu fel arall wedi i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(3) Rhaid dosrannu pob swm o wariant a grybwyllir ym mharagraff (1) uchod gan gyfeirio at y dyddiad trosglwyddo.

Diwygio Deddf Rhenti 1977

10. Yn y Ddeddf diwygir adran 62 fel a ganlyn -

- (a) yn is-adran (1) ar ôl "this Act" mewnosodwch "in England";
- (b) yn is-adran (1)(a) hepgorwch "and county boroughs";
- (c) ar ôl is-adran (1) mewnosodwch:
"(1A) Wales is a registration area for the purposes of this Part of this Act."

11. Yn is-adran (4) o adran 63 o'r Ddeddf ar ddiwedd paragraff (b) ychwanegwch "or, in relation to Wales, any rent officer appointed by the National Assembly for Wales."

12. Yn adran 66 o'r Ddeddf -

- (a) yn is-adran (1A)(b) ar ôl y geiriau "Secretary of State" mewnosodir "or in relation to Wales, the National Assembly for Wales.",
- (b) ar ôl is-adran (4) ychwanegwch-
"(5) In relation to Wales, references in this section to the rent officer are to the rent officer or rent officers designated for the purposes of this section by the National Assembly for Wales."

bodies which is of a kind mentioned in paragraph (2) is to be met by the National Assembly by way of grant, reimbursement or otherwise.

(2) Expenditure mentioned in paragraph (1) is any reasonable expenditure attributable to this Order, and -

- (a) incurred in respect of pensions, allowances or gratuities payable to or in respect of rent officers by virtue of section 1 of the Superannuation Act 1972 or regulations made under section 7 or 24 of that Act, or
- (b) incurred in respect of increases of pensions payable to or in respect of rent officers (so appointed) by virtue of the Pensions (Increase) Act 1971(a), or
- (c) incurred in respect of any land or buildings or any interest in any land or buildings which was, immediately before the coming into force of this Order, used for the purposes of the rent officer service where the relevant body has not been able to put that property to an alternative use or otherwise dispose of the same following the coming into force of this Order.

(3) All sums of expenditure mentioned in paragraph (1) above are to be apportioned with reference to the transfer date.

Amendments to the Rent Act 1977

10. Section 62 of the Act is amended as follows -

- (a) in subsection (1) after "this Act" insert "in England";
- (b) in subsection (1)(a) omit "and county boroughs";
- (c) after subsection (1) insert:
"(1A) Wales is a registration area for the purposes of this Part of this Act."

11. In subsection (4) of section 63 of the Act at the end of paragraph (b) add "or, in relation to Wales, any rent officer appointed by the National Assembly for Wales."

12. In section 66 of the Act -

- (a) in subsection (1A)(b) after the words "Secretary of State" insert "or in relation to Wales, the National Assembly for Wales.",
- (b) after subsection (4) add -
"(5) In relation to Wales, references in this section to the rent officer are to the rent officer or rent officers designated for the purposes of this section by the National Assembly for Wales."

(a) 1971 p.56.

(a) 1971 c.56.

Darpariaethau atodol a chysylltiedig

13. Diddymir paragraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994(a).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (b).

1 Ebrill 2003

Incidental and supplementary provisions

13. Paragraph 3(2) of Schedule 8 to the Local Government (Wales) Act 1994(a) is repealed.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b).

1st April 2003

D.Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1994 p.19.

(b) 1998 p.38.

(a) 1994 c.19.

(b) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W112/05/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090743-4



9 780110 907437